CYFRES YR HAF 2017

Ffocws ar Fagloriaeth Cymru

Yr haf hwn bydd Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen (Cyfnod Allweddol 4) a Bagloriaeth Cymru Uwch yn cael eu dyfarnu am y tro cyntaf. Yr haf hwn hefyd bydd Bagloriaeth Cymru Ôl-16 ar lefelau Sylfaen a Chenedlaethol yn cael eu dyfarnu am yr ail dro.

Beth sy'n newydd?

Mae Bagloriaeth Cymru ar bob lefel yn cynnwys Tystysgrif Her Sgiliau newydd a rhai cymwysterau ategol. Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau yn asesu sgiliau ar gyfer astudio ymhellach a chyflogaeth ac mae'n cynnwys pedair cydran. Mae'r pedair cydran hyn yn gyffredin i bob lefel ac yn galluogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer addysg, cyflogaeth a bywyd:

Tystysgrif Her Sgiliau	Pwrpas	Sgiliau a ddatblygir ac asesir
1. Prosiect Unigol (50%)	I ddatblygu sgiliau ymchwil	• Llythrennedd • Rhifedd • Llythrennedd ddigidol • Meddwl yn feirniadol a datrys problemau • Cynllunio a threfnu • Creadigedd ac arloesi • Effeithiolrwydd personol
2. Her Menter a Chyflogadwyedd (20%)	I feithrin sgiliau a phriodoleddau mentrus er mwyn gwella cyflogadwyedd	
3. Her Dinasyddiaeth Fyd-eang (15%)	I ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion y byd	
4. Her y Gymuned (15%)	I nodi cyfleoedd yn y gymuned a chymryd rhan ynddynt	

Mae gwaith y myfyrwyr ar gyfer pob cydran y Dystysgrif Her Sgiliau yn cael ei farcio gan athrawon mewn ysgolion a cholegau. Ar ôl safoni mewnol, mae sampl o waith yn cael ei safoni gan CBAC.

I ennill Bagloriaeth Cymru mae'n rhaid i fyfyrwyr gyflawni'r Dystysgrif Her Sgiliau a chymwysterau ategol. Dyfernir llwyddiant neu fethiant ar gyfer pob lefel Bagloriaeth Cymru.

Gellir dyfarnu'r Dystysgrif Her Sgiliau fel cymhwyster hyd yn oed os na fydd myfyriwr yn cyflawni'r cymwysterau ategol sy'n ofynnol i ddyfarnu Bagloriaeth Cymru.

CYFRES YR HAF 2017

Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau hefyd yn cael ei dyfarnu ar dair lefel gyda'r graddau canlynol ar gael ar bob lefel:

- Sylfaen (lefel 1) – Llwyddiant* a Llwyddiant
- Cenedlaethol (lefel 2) – A* i C
- Uwch (lefel 3) – A* i E

Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch yn cyfateb o ran maint a galw i gymhwyster Safon Uwch. Caiff ei graddio yn yr un ffordd ac mae ganddi'r un pwyntiau tariff UCAS.

Pwy sy'n astudio'r cymwysterau hyn yr haf hwn?

Mae'r data cofrestriadau yn dangos bod 23,700 o fyfyrwyr wedi cael eu cofrestru ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau Cyfnod Allweddol 4 sef tua thri chwarter carfan blwyddyn 11. Mae 11,400 o gofrestriadau ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch sy'n gynnydd o 4% o gymharu â chofrestriad 2016 ar gyfer yr hen Fagloriaeth Cymru Uwch.

Bu gostyngiad yn nifer y cofrestriadau ar gyfer Tystysgrifau Her Sgiliau ôl-16 o gymharu â 2016. Mae 1,600 o fyfyrwyr wedi cael eu cofrestru ar gyfer Tystysgrifau Her Sgiliau Ôl-16, o gymharu â 5,100 o gofrestriadau yn 2016.

Wedi'r haf

Rydym wrthi'n cynnal adolygiad o'r Dystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru. Rydym yn disgwyl cyhoeddi adroddiad ar ein canfyddiadau ar ddiwedd y flwyddyn.

Rhagor o wybodaeth:
www.cymwysteraucymru.org
E: ymholiadau@cymwysteraucymru.org
Ff: 0333 077 2701
@cymwysterau_cym